# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy Fideo Gynadledda ar ddydd Iau, 27 Mawrth 2025 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Karen Edwards (Cadeirydd), James Elson, Hugh Evans, Jon Harland, Carol Holliday, Brian Jones, Delyth Jones a Merfyn Parry.

Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cyng. Barry Mellor, ar gyfer eitem 6 – Strategaeth Toiledau Lleol Ddrafft a'r Cynigion am Arbedion.
Yr Arweinydd / Aelod Arweiniol ar gyfer Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd, y Cyng. Jason McLellan, ar gyfer eitem 7 – Adfywio'r Rhyl ac Uwchgynllun Glan y Môr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd (TW), Prif Reolwr, Arlwyo a Glanhau (HJ), Gweinyddwr Pwyllgorau (RhT), Gweinyddwr Gweddarlledu (CM) a'r Cydlynydd Craffu (KE).

Cyn i'r cyfarfod ddechrau dywedodd y Cydlynydd Craffu (KE) fod aelodaeth y Pwyllgor wedi newid.

Yn dilyn ffurfio grŵp annibynnol newydd – Cynghrair Annibynnol Sir Ddinbych (CASDd), mae aelodaeth pob pwyllgor wedi'i hadolygu i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol.

Mae'r Cadeirydd blaenorol, y Cyng. Huw Williams (CASDd) wedi gadael y Pwyllgor a'r Cyng. Hugh Evans (Grŵp Annibynnol) yn ei le.

Mae'r Cyng. Karen Edwards wedi'i phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau gan Arweinydd y Grŵp Annibynnol.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r Cyng. Hugh Williams am gadeirio'r cyfarfod am sawl blwyddyn.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Michelle Blakeley-Walker

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Cyn gofyn am enwebiadau ar gyfer rôl yr Is-Gadeirydd ar gyfer gweddill 2024/25, eglurodd y Cadeirydd nad yw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cwrdd eto tan ar ôl

Cyfarfod Blynyddol y Cyngor – ac ar ôl hynny bydd yn rhaid cael enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd ar gyfer 2025/26.

Gofynnodd y Cadeirydd a yw'r Pwyllgor yn dymuno penodi Is-Gadeirydd rŵan neu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 15 Mai, ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Cynigiodd y Cyng. Carol Holliday bod y Pwyllgor yn penodi Is-Gadeirydd yn y cyfarfod nesaf. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Delyth Jones ac roedd pawb yn gytûn.

***PENDERFYNWYD gohirio penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Craffu Cymunedau tan y cyfarfod nesaf ar 15 Mai 2025.***

## 4 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim.

Fodd bynnag, ar gais Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd, i osgoi dyblygu gwaith mae'r ddwy eitem ar wahân ar Fwrdd Adfywio a Llywodraethu'r Rhyl ac Uwchgynllun Promenâd y Rhyl wedi'u cyfuno mewn un adroddiad – eitem 7 ar y rhaglen.

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod ar 6 Chwefror 2025.

Materion yn codi:

Adolygiad o Wasanaeth Ailgylchu'r Trolibocs a Swyddogaethau Casglu Gwastraff Cysylltiedig (tudalen 10) – Dywedwyd fod problemau o hyd gyda'r cyfathrebu ynglŷn â datrys materion gyda'r casgliadau Trolibocs.

Atgoffodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd y Pwyllgor fod y cofnodion yn cyfeirio at y cyfathrebu ynglŷn â chasgliadau pen ffordd ond y byddai'n cysylltu â'r Aelod ynglŷn â'r mater penodol hwnnw y tu allan i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad yw Aelodau Lleol wedi cael gwybodaeth ynglŷn â nifer y casgliadau pen ffordd yn eu wardiau.

***PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod 6 Chwefror 2025 fel rhai cywir.***

## 6 STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL DDRAFFT A CHYNNIG ARBEDION

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw). Dywedodd fod tri rheswm dros gyflwyno'r adroddiad, sef i ystyried:

1. Yr Asesiad o Anghenion am Doiledau Lleol ynghyd â'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ynghylch yr Asesiad o Anghenion Dros Dro.
2. Y Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft a'r ymgynghoriad cyhoeddus cysylltiedig.

3. Yr opsiynau ar gyfer pob cyfleuster cyhoeddus yn Sir Ddinbych.

Sicrhaodd yr Aelod Arweiniol y Pwyllgor ei fod yn deall pwysigrwydd cyfleusterau cyhoeddus a dywedodd ei fod wedi bod yn gweithio gyda'r gwasanaeth ar gynllun i gadw'r cyfleusterau ar agor pan fo angen amlwg ar eu cyfer.

Gan gyfeirio at yr adroddiad amlygodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd wybodaeth bwysig:

1. Yr Asesiad o Anghenion Lleol (atodiad 1) sy'n nodi'r angen ymhob tref. Daeth i'r casgliad bod angen cyfleusterau cyhoeddus yng Nghorwen, Dinbych, Llangollen, Prestatyn a'r Rhyl.

2. Y Strategaeth Anghenion ar gyfer Toiledau Lleol ddrafft (atodiad 3) sy'n nodi'r cynllun i gyrraedd y nod cyffredinol ar gyfer darparu cyfleusterau cyhoeddus.

3. Y Sefyllfa a'r Gofynion Presennol o ran Cyfleusterau Cyhoeddus (atodiad 5) sy'n ystyried rhesymeg y Strategaeth Anghenion ar gyfer Toiledau Lleol ddrafft ochr yn ochr â chyfyngiadau cyllidebol yr Awdurdod.

Byddai'r strategaeth yn cymharu'r ddarpariaeth bresennol ar draws y sir gyda'r angen a nodwyd ymhob tref.

Byddai cyfleusterau cyhoeddus mewn trefi gydag angen a nodwyd yn gweld buddsoddiad a gwelliannau. Byddai ffioedd yn cael eu hadolygu i gyfrannu at gefnogi'r buddsoddiadau a'r costau gweithredu. Byddai prosesau gweithredu ac oriau agor yn destun adolygiad yn ogystal. Byddai'r Cyngor hefyd yn parhau i edrych ar opsiynau trosglwyddo i sefydliadau allanol ble bo'n bosibl, gan barhau i edrych ar ac ehangu'r Cynllun Toiledau Cymunedol.

Argymhellir y canlynol:

1. O ystyried bod darparu cyfleusterau cyhoeddus yn wasanaeth yn ôl disgresiwn, bod y Cyngor yn rhoi'r gorau i weithredu cyfleusterau cyhoeddus heb angen a nodwyd – Dyserth, Rhuddlan a Llanelwy.

2. Dylid datgomisiynu cyfleusterau pod sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes neu ddim yn gweithio.

3. Dylid buddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus trefol gydag angen a nodwyd, er mwyn derbyn taliadau heb arian parod a'u hagor heb staff.

Mae cais wedi'i gyflwyno i gronfa Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru i gael cyllid i gyfrannu at y buddsoddiad hwnnw – disgwylir penderfyniad ddechrau mis Ebrill 2025. Mae'r Cyngor yn edrych ar gyllid ychwanegol ac yn cynnal sgyrsiau gyda chynghorau Tref, Cymuned a Dinas ynglŷn â'u gallu i gyfrannu at y buddsoddiad sydd ei angen a/neu i leihau cost taliadau cyfleusterau cyhoeddus yn eu hardaloedd.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y Swyddogion:

- Mae prif gyfleusterau cyhoeddus pob tref gydag angen lleol a nodwyd yn destun cais am grant y Pethau Pwysig. Pan fo mwy nag un cyfleuster cyhoeddus mewn tref, byddai angen canfod cyllid ychwanegol. Bydd y camau nesaf yn dibynnu ar ganlyniad y cais am gyllid.

- Ac eithrio Cyngor Tref Corwen, ychydig iawn o ddiddordeb sydd wedi bod mewn trosglwyddo cyfleusterau cyhoeddus i Gyngor Cymuned, Tref neu Ddinas.

- O ran cynllunio ar gyfer twf posibl mewn twristiaeth mewn ardaloedd fel yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ardaloedd gwledig eraill, mae'r Asesiad o Anghenion wedi dilyn methodoleg gydnabyddedig a ddaeth i'r casgliad ei fod yn argymhelliad rhesymol, o ystyried fod cyfleusterau cyhoeddus yn swyddogaeth anstatudol gyda goblygiadau cyllidebol, i roi'r gorau i ddarparu'r cyfleusterau os nad oedd angen wedi'i nodi.

- Yn hytrach na chau cyfleusterau cyhoeddus dewis arall yw gofyn i Gynghorau Tref, Cymuned a Dinas gyfrannu mwy i gefnogi baich ariannol cadw cyfleusterau cyhoeddus ar agor. Mae trafodaethau yn parhau gyda Chynghorau Tref, Cymuned a Dinas. Mae'n bwysig nodi y byddwn yn gofyn i Gynghorau Tref, Cymuned a Dinas ddarparu cefnogaeth ariannol ar gyfer y cyfleusterau yn eu cymuned, yn hytrach nag ar gyfer y gwasanaeth cyfan.

- Os nad yw cais i'r gronfa Pethau Pwysig yn llwyddiannus, byddai angen sgyrsiau pellach gyda Chynghorau Tref, Cymuned a Dinas a'r Grŵp Craffu Cyfalaf.

- Mae yna ychydig o gyfleusterau pod ddim yn gweithio a'r darnau neu'r meddalwedd sydd eu hangen ar eu cyfer ddim ar gael mwyach. Dylid datgomisiynu'r rhain a phodiau eraill sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes.

- Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw nodi a oes angen cyfleusterau cyhoeddus a diwallu'r angen hwnnw ble bo'n bosibl. Fodd bynnag, nid yw'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i'w darparu.

- Mewn rhai ardaloedd mae'r angen am gyfleusterau cyhoeddus yn fwy na'r hyn sy'n cael ei ddarparu yno. Mae'r Awdurdod wedi bod yn ceisio ychwanegu at y ddarpariaeth drwy annog y Cynllun Toiledau Cymunedol, ond mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn.

- Mae'r adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet fis Ebrill yn gofyn am benderfyniad ynghylch y Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft. Mae angen rhagor o waith, yn dibynnu ar lefel y cyllid a geir a'r ymgynghoriad gyda Chynghorau Tref, Cymuned a Dinas amrywiol, cyn gellir gwneud penderfyniad ynghylch cyfleusterau cyhoeddus unigol.

- Mae angen gwneud mwy o waith ar fodel ariannol ffioedd cyfleusterau cyhoeddus. Gan fod llawer o'r cyfleusterau cyhoeddus wedi bod am ddim yn y gorffennol, does dim ffordd i wybod beth fydd yr incwm posibl.

Credodd yr Aelodau y byddai nifer yr ymwelwyr yn amrywio yn ystod y flwyddyn yn yr ardaloedd hyn heb angen a nodwyd. Gofynnwyd a fyddai modd gofyn i Gynghorau Tref, Cymuned a Dinas gyfrannu at gostau cyfleusterau cyhoeddus sydd ar agor yn dymhorol.

Awgrymwyd y dylai'r taliad sy'n cael ei gynnig fel rhan o'r Cynllun Toiledau Cymunedol gael ei adolygu gan nad yw £500 yn cwrdd â chost darparu'r gwasanaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor a oes gormod o ffocws yn cael ei roi ar anghenion ymwelwyr a ddim digon ar anghenion trigolion, yn enwedig o ran iechyd, lles a hygyrchedd. Yn yr ardaloedd gwledig mae cael mynediad at gyfleusterau cyhoeddus yn rhoi tawelwch meddwl i bobl sy'n sâl, anabl a phobl gyda phroblemau symudedd a'u helpu i fyw bywydau egnïol.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid amlygu budd economaidd cael lle i drigolion ac ymwelwyr stopio wrth ymgysylltu â Chynghorau Tref, Cymuned a Dinas.

Pan fydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad, gofynnodd yr Aelodau i'r adroddiad hwnnw gynnwys gwybodaeth am y matrics STEAM a ddefnyddir i gyfrifo nifer yr ymwelwyr a'r angen dilynol a nodir ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus.

Nodwyd fod lefel y pryderon a godwyd gan aelodau a phreswylwyr yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch cynigion i gau rhai cyfleusterau cyhoeddus mor fawr nes eu bod yn credu bod angen i gyfleusterau cyhoeddus, ble ceir angen a nodwyd, fod yn ofyniad statudol – wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r Awdurdod, drwy gynghorwyr lleol, lobio'r llywodraeth i newid y gofyniad statudol mewn perthynas â'r gwasanaeth. Bydd diffyg cyfleusterau cyhoeddus yn arwain at broblemau iechyd y cyhoedd sylweddol.

Diolchwyd i'r swyddogion am yr adroddiad manwl iawn.

**PENDERFYNWYD:**

- ***I.*** ***Bod yr adborth a'r sylwadau a ddarparwyd yn ystod y drafodaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad o Anghenion Lleol a'r Strategaeth Toiledau Lleol Ddrafft;***
- ***II.*** ***Nodi'r ddarpariaeth cyfleusterau cyhoeddus bresennol a'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer pob un, gan argymell bod sgyrsiau pellach yn cael eu cynnal gyda Chynghorau Tref, Cymuned a Dinas ynghylch cefnogi'r cyfleusterau hynny yn eu cymunedau; a***
- ***III.*** ***Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les.***

## 7 RHAGLEN ADFYWIO AC UWCHGYNLLUN GLAN Y MÔR Y RHYL

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor / Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd, y Cyng. Jason McLellan yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw). Dywedodd fod arian y Gronfa Ffyniant Bro yn dod i law, ynghyd â chyllid o gronfa Cynllun ar gyfer Cymdogaethau (Cynlluniau Hirdymor ar gyfer Trefi gynt).

Mae llawer o waith yn cael ei wneud o ran:

- Marchnad y Frenhines
- Datganiadau o ddiddordeb ar gyfer sinema'r Vue
- Uwchgynllun Glan y Môr

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd y wybodaeth ddiweddaraf ar Raglen Adfywio'r Rhyl sydd yn bennaf yn canolbwyntio ar brosiectau cyfalaf i ddatrys problemau ffisegol ac amgylcheddol – i geisio annog twf economaidd a swyddi newydd. Mae'r rhaglen hefyd yn ymwneud â materion eraill sy'n gysylltiedig â digartrefedd, anweithgarwch hirdymor, trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael grantiau i gyflawni cynlluniau cyfalaf mawr – gyda thros £200 miliwn o fuddsoddiadau cyfalaf wedi'u cyflawni yn ystod y ddegawd ddiwethaf.

Mae £12 miliwn arall wedi'i fuddsoddi mewn pedwar prosiect ychwanegol i wella canol y dref a'r promenâd yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'r grant £20 miliwn o Gronfa Cynllun ar gyfer Cymdogaethau yn caniatáu darparu strategaeth adfywio hirdymor gymunedol yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Piler y rhaglen oedd Gweledigaeth Canol Tref y Rhyl. Datblygwyd y cynllun chwe blynedd yn ôl, mae rhai prosiectau wedi'u cyflawni ac eraill heb. Mae cymdeithas wedi newid dros y blynyddoedd hynny – yn bennaf oherwydd y pandemig, ac roedd yn rhaid adolygu'r weledigaeth i wneud yn siŵr ei bod yn cyd-fynd â'r cynllun 10 mlynedd nesaf.

Yn debyg iawn, lluniwyd Uwchgynllun Glan y Môr y Rhyl sawl blwyddyn yn ôl. Roedd yn gysyniad uchelgeisiol gyda'r holl elfennau yn amodol ar sicrhau cyllid i'w darparu, ynghyd â rhywfaint o fuddsoddiad preifat. Y cynnig oedd datblygu pedwar parth penodol ar hyd glan y môr (atodiad a).

Mae model 3D drafft o'r glan y môr a chanol y dref wedi'i gynnwys yn yr adroddiad (atodiad b). Cafodd y cynllun ei gomisiynu at ddibenion marchnata, fel ffordd i ddangos sut mae glan y môr y Rhyl wedi'i ddatblygu dros y ddegawd ddiwethaf – a gellir hefyd ei ddefnyddio i fodelu datblygiadau newydd ac annog buddsoddiadau preifat yn y Rhyl. Y dyhead oedd gweld y Rhyl yn cyrraedd pwynt ble na fyddai angen ymyrraeth sector cyhoeddus, a bod y farchnad breifat yn cymryd drosodd.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, cynghorodd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol:

- Mae'r Adran Gymunedau (Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau gynt) wedi ymrwymo i wneud newidiadau gwerth am arian parhaol i gymunedau (bydd cylch gorchwyl cynlluniau hirdymor yr Adran yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor).

- Bydd rhaglen o ymgysylltu cyhoeddus yn dechrau'n fuan i weld sut fydd y weledigaeth yn cyd-fynd ag anghenion y gymuned.

- Byddai llwyddiant adfywiad y Rhyl yn rhoi budd i'r sir / rhanbarth cyfan.

- Yr her fwyaf i'r Rhyl yw ei henw da oherwydd y sylw negyddol mae'r dref wedi'i gael yn y cyfryngau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ymgyrch gyfryngau yn cael ei lansio i hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol.

- Mae Bwrdd Cymdogaeth y Rhyl, a sefydlwyd yn ddiweddar, yn cynnwys cynrychiolwyr annibynnol o'r gymuned yn hytrach na chynghorwyr.

- Bydd gwasanaethau cymuned ac ieuenctid yn rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y weledigaeth.

- Mae gan y cyfryngau cymdeithasol rôl i'w chwarae ym mhroses ymgysylltu gyhoeddus Gweledigaeth y Rhyl. Tra bod modd defnyddio tudalennau Facebook i gael barn trigolion, nid Facebook yw'r llwyfan cymdeithasol a ffafrir gan bobl ifanc.

- Roeddynt yn hyderus y bydd Marchnad y Frenhines ar agor erbyn yr haf (2025).

Roedd yr Aelodau yn credu bod angen ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws y sir i hyrwyddo adfywiad y Rhyl. Yn hanesyddol mae'r Rhyl a'r glan y môr wedi bod yn gyrchfan glan môr i drigolion y sir. Mae angen hysbysebu manteision y cynlluniau adfywio i bawb.

Roedd yr Aelodau hefyd yn annog swyddogion i gysylltu â threfi cyfagos, Bae Cinmel a Thowyn, fel rhan o'r Strategaeth Twristiaeth. Cytunodd yr Arweinydd a dywedodd y byddai'r gwaith ar y marina yn hwyluso hynny.

Roedd gwahoddiad i bob Cynghorydd Sir Ddinbych ymweld â safle newydd Marchnad y Frenhines ar 10 Ebrill. Croesawodd y Pwyllgor y gwahoddiad a dweud y byddai gan bob Aelod ddiddordeb cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith adfywio, nid Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl yn unig.

Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad arall ar ôl i'r broses ymgysylltu ddod i ben a Chynllun Gweledigaeth y Rhyl gael ei lunio.

**PENDERFYNWYD:**

I. ***Bod yr adborth a'r sylwadau a ddarparwyd yn ystod y drafodaeth yn cael eu hystyried fel rhan o waith cyflawni Rhaglen Adfywio'r Rhyl ac Uwchgynllun Glan y Môr y Rhyl; a***

II. ***Bod adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ôl y broses ymgynghori a sefydlu Cynllun Gweledigaeth Canol Tref y Rhyl.***

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu (KE) y rhaglen waith (atodiad 1.a).

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi'i drefnu ar gyfer 15 Mai 2025. Mae tair eitem ar y rhaglen:

1. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth;
2. Gwasanaeth Ailgylchu Gwastraff – cymharu'r incwm a gynhyrchwyd gan y gwasanaeth ailgylchu yn erbyn yr hyn a ragfynegwyd, a'r wybodaeth ddiweddaraf am y casgliadau pen ffordd arfaethedig; a
3. Darpariaeth Gwresogi mewn Argyfwng

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am Adfywio'r Rhyl a'r Uwchgynllun Glan y Môr yn cael ei hychwanegu dan 'eitemau i'r dyfodol' ar y rhaglen waith nes bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi dod i ben a Chynllun Gweledigaeth Canol Tref y Rhyl wedi'i lunio.

Mae cyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar 28 Ebrill. Mae ffurflenni testunau craffu ar gael yn atodiad 2 i aelodau gyflwyno unrhyw eitem i'w hystyried.

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:45am